# YMYLON CAE ÂR

*Cwmpas y Cynllun Gweithredu:*

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn ymdrin â ymylon caeau Grawn cynefin blaenoriaeth CGB[1] a ymylon cnydau âr eraill. Mae'r ymylon hyn yn cynnwys stribedi o dir sy'n gorwedd rhwng cnydau âr a ymylon caeau, ac sy'n ymestyn am bellter cyfyngedig i mewn i'r cnwd, a reolir mewn modd fel eu bod o fudd i rywogaethau allweddol tir fferm, sydd yn aml yn methu â goroesi mewn man arall ar y fferm. Gellir gadael yr ymylon hyn heb eu datblygu (eu trin yn rheolaidd ond heb eu torri), eu rheoli fel pentiroedd cadwraeth (lle tyfir cnydau gan ddefnyddio swm cyfyngedig iawn o blaladdwyr a chwynladdwyr), fel ymylon glaswellt neu fel cnydau hela. Gallant weithredu fel coridorau sy'n caniatáu i fywyd gwyllt symud rhwng mannau tameidiog o gynefin addas.

## 1. STATWS PRESENNOL

### 1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Dim yn wybyddus |
| Y Deyrnas | Deddf Bwyd ac Amddiffyn yr Amgylchedd (1985)[a] |
| Gyfunol a Chymru | Ymylon Caeau Grawn: |
| | Cynefin blaenoriaeth CGB DG |
| | Rhestr A47 Cymru[b] |
| Gwynedd | Dim |

### 1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae gan Gymru ardal o tua 60,000ha o dir âr wedi ei dorri, a thrwy ddefnyddio maint cae o 3ha ar gyfartaledd, gellir amcangyfrif maint posibl yr ymyl cae âr yng Nghymru fel bod tua 16,300 ha[2]. Yng Nghymru yn unig, dim ond 22% o gyfanswm y tir âr sy'n cynnwys grawn, o'i gymharu â 51% o gyfanswm yr ardal drwy Brydain[3].

Mae cynnydd mewn arbenigedd a'r gostyngiad mewn ffermio cymysg yn golygu fod darnau mawr o dir âr erbyn hyn wedi eu cyfyngu i diroedd isel Sir Benfro, Powys, Sir Fynwy, Bro Gŵyr, Bro Morgannwg a thiroedd isel Gogledd-Ddwyrain Cymru, er bod ardaloedd sylweddol hefyd ym Môn a Gwynedd[4].

### 1.3 Statws yng Ngwynedd[c]

Cyfran gweddol fechan o dir âr Cymreig sydd yng Ngwynedd (3%) o'i gymharu â dwyrain a de Cymru, lle'n draddodiadol y tyfwyd mwy o gnydau âr. Serch hynny, mae pridd Pen Llŷn (yn enwedig ar hyd yr arfordir ac ar yr ochr ddeheuol) wedi ei ddraenio'n iawn ac yn cynnwys priddoedd brown, priddgleiog, sydd wedi eu graddio'n gyson (gradd 3/4 gan fwyaf gydag ychydig o radd 1 a 2) fel bod yn dir amaethyddol o ansawdd gwell. Yn y gorffennol, tyfwyd llawer o gnydau âr Gwynedd yma. Erbyn hyn, dim ond ambell i gnwd o rawn a dyfir yma.

---

[a] Anghyfreithlon i chwistrellu plaladdwyr i mewn i waelodion gwyrchoedd, oni bai fod argymhellion penodol ar y label neu ganiatâd penodol oddi ar y label. Dan y gweithdrefnau presennol ar gyfercofrestru ac adolygu plaladdwyr, mae gan rai eithriadau label statudol sy'n atal eu defnyddio ar stribedi 6m mwyaf allanol cnydau. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi eu bwriadu i atal gorchwistrellu cyrsiau dŵr ac i amddiffyn cynefinoedd heb eu torri.

[b] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mynd yn Wyllt yng Nghymru– Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd o Bwysigrwydd Pennaf i Amcanion Gwarchod Amrywiaeth Biolegol. Hawlfraint y Goron 2003.

[c] Yn y ddogfen hon, mae'r term "Gwynedd" yn cyfeirio at ardaloedd y tu allan i ardal Parc Cenedlaethol Eryri, heblaw lle nodir fel arall.

# YMYLON CAE ÂR


## 2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y CYNEFIN HWN YNG NGWYNEDD

- Gostyngiad mewn ffermio âr, wrth i fwy a mwy o ffermydd arbenigo mewn systemau bugeiliol
- O fewn systemau da byw, rhoi diwedd ar yr arfer o dyfu llecyn bychan o gnydau ar gyfer bwydo stoc
- Dwysáu ac arbenigo mewn cynhyrchiant âr, gan gynnwys defnyddio chwynladdwyr a phlaladdwyr
- Newidiadau ym mhatrymau torri tymhorol – o gnydau a blannir yn y gwanwyn i gnydau a blannir yn yr hydref – a cholli'r sofl yn gysylltiedig â hyn, yn enwedig yn y gaeaf.
- Gostyngiad yn y broses o gylchdroi cnydau âr gyda gorchuddion tir eraill (gan gynnwys gwyndynnydd a braenarau glaswellt).
- Gostyngiad mewn mannau hau dan gnwd sy'n gysylltiedig â'r symudiad i dorri yn y gaeaf
- Annog y defnydd mwyaf posibl o gaeau gyda chymorthdaliadau cynhyrchu

## 3. SAPS / HAPS GWYNEDD CYSYLLTIEDIG

Cloddiau, Gwrychoedd, Rhostir yr iseldir, Clogwyni a llethrau morol,

Cornchwiglen, Ystlumod, Ysgyfarnog Brown, Adar Tir Fferm, Ffwlbart, Llinos y Mynydd



## 4. CAMAU GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

### 4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Dim yn wybyddus

### 4.2 Rheoli a rhaglenni gweithredu

- Targedwyd ymylon caeau âr (Meirionnydd yn unig) dan Tir Cymen (dechreuodd y cynlluniau deng mlynedd olaf ym 1998) gan gynnwys dewisiadau fel 'stribedi bywyd gwyllt', 'pentiroedd cadwraeth' neu 'ymylon glaswellt garw'
- Mae Cynllun Llŷn (AAS) yn cynnig taliadau am gnydau âr heb eu chwistrellu mewn rhannau o Ben Llŷn.
- Mae cynllun amaeth-amgylcheddol Cymru gyfan Tir Gofal ar hyn o bryd yn cynnig taliadau am gnydau heb eu chwistrellu, soflau gaeaf, grawn a blannwyd yn y gwanwyn wedi eu hau dan y cnwd, ymylon glaswellt garw a braenar, cnydau bywyd gwyllt a thrawsnewid tir glaswelltog wedi ei wella i dir âr.
- Mae diddordeb wedi bod yn ddiweddar mewn cynhyrchu llin ym Mhen Llŷn a Môn.
- Mae'r CFGA, yn enwedig o gofio'r gostyngiad dramatig mewn adar tir ffermio yng Nghymru, yn parhau i hybu rheoli tir âr mewn modd sy'n sensitif i fywyd gwyllt. Ym 1996, cynhyrchwyd *Silent Fields* ganddynt, sef adroddiad sy'n amlinellu'r rhesymau am y gostyngiad hwn yng Nghymru sy'n cynnwys gostyngiad mewn ffermio cymysg a chnydau âr. Dilynwyd hwn gan *Living Fields* sy'n ceisio darparu dulliau o stopio/gwrthdroi y gostyngiad hwn.
- Yn ddiweddar, cynhyrchodd 'Plantlife' daflen ddwyieithog yn codi ymwybyddiaeth o'r enw '*Farming for Arable Flowers*' sy'n cynnwys manylion am y Dewisiadau Tir Gofal perthnasol.

### 4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- Bydd 'Plantlife' yn cynnal arolwg drwy Brydain ar blanhigion âr yn ystod 2004 ('UK Arable Plants Survey') er mwyn casglu cofnodion o 25 rhywogaeth âr prin. Mae poster a thaflen yn codi ymwybyddiaeth wedi eu cynhyrchu gan swyddog 'Plantlife' Cymru.

## 5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Cynnal, gwella ac adfer bioamrywiaeth ymylon caeau âr.
2. Annog ailgyflwyno torri âr mewn mannau fel Pen Llŷn a Meirionnydd, sydd erbyn hyn i bob pwrpas wedi symud drosodd i gynhyrchu da byw.

## 6. CAMAU GWEITHREDU BWRIEDIG

| Cod | Cam Gweithredu | Partner(iaid)[d] |
|---|---|---|
| **Polisi a deddfwriaeth** | | |
| 1 | Ymchwilio i hyfywedd / ymarferoldeb torri âr yng Ngwynedd, gan gynnwys gwerthiannau a marchnata yn lleol<br>TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2006 | **AACChG,** CyT, UCF, UAC, GCFBG |
| **Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd** | | |
| 2 | Hybu a chefnogi cynlluniau grant gan gynnwys Tir Gofal, ESA Llŷn, a defnyddio cytundebau rheolaeth er mwyn sicrhau bod ymylon caeau âr yn cael eu rheoli'n ffafriol, gan ystyried anghenion y rhywogaethau a chynefinoedd CGB cysylltiedig<br>TARGED/AMSERLEN: i'w osod, cyfredol | **GCFFBG,** AACChG, CBSCh, CCGC, CyT, UAC, CG, UCF, YG, Plantlife, CFGA |
| 3 | Edrych am nawdd ar gyfer rheolaeth tir drwy ddatblygu prosiect grant bioamrywiaeth a fyddai yn cynnwys nawdd ar gyfer rheoli ymylon caeau âr<br>TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2006 | **CG,** Partneriaid perthnasol |
| **Cynghori** | | |
| 4 | Darparu cyngor ar effeithiau niweidiol plaladdwyr, ac annog defnydd o ddewisiadau eraill sy'n amgylchedd-gyfeillgar<br>TARGED: cyfredol | AACChG, CCGC, CG, CBNGC, YG, Plantlife, CFGA |
| **Arolygon, ymchwilio a monitro** | | |
| 5 | Annog arolygu a chofnodi chwyn âr drwy hyrwyddo'r 'UK Arable Plants Survey' yn lleol.<br>TARGED: Cyfredol | **Plantlife,** CyT, UAC, GCFFBG, CG, UCF, CBNGC |
| **Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd** | | |
| 6 | Codi ymwybyddiaeth o'r gostyngiad mewn adar tir fferm a rhywogaethau eraill sy'n gysylltiedig â chnydau âr drwy fynd i sioeau a digwyddiadau amaethyddol lleol, drwy'r cyfryngau, dyddiau agored, teithiau cerdded fferm, dehongli a thrwy gynhyrchu/dosbarthu defnyddiau cynghori/gwybodaeth i berchenogion tir.<br>TARGED: Cyfredol | CyT, CCGC, CG, CBNGC, Plantlife, |

[d] Partner arweiniol ar gyfer y cam hwn wedi ei ddangos mewn print du trwm, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

## 7. PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

### 7.1 Partner arweiniol cyffredinol ar gyfer CGC

Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (CFGA)

### 7.2 Partneriaid allweddol

Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad AACChG

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AA)

Cymdeithas Brydeinig Saethu a Chadwraeth (CBSCh)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW)

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CyT)

Grŵp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GCFFBG)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Cyngor Gwynedd (CG)

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (UCF)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

Plantlife

### 7.3 Cyfleoedd

Undebau amaeth, Perchenogion tir a rheolwyr

## 8. DIOLCHIADAU

Prif awdur: Kate Williamson (CG)
Ymgynghori: Dave Elliott (UWB), Ian Danby (Cymdeithas Brydeinign Saethu a Chadwraeth), Duncan Brown (Cymdeithas Edward Llwyd/Cymdeithas Astudio Adar Ysglyfaethus Cymru/Cyngor Cefn Gwlad Cymru), Trevor Dines (Plantlife)
Llinluniau: English Nature

## 9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, ESA: Ardal Sensitif yn Amgylcheddol, HAP: Cynllun Gweithredu Cynefin, JNCC: Cyd-Bwyllgor Gwarchod Natur, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaethau, CGBL: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

---

[1] Dosbarthiad Grŵp Biomarywiaeth DG - Jackson, D.L. 2000. Canllaw ar ddehongli Dosbarthiad Cynefinoedd Bras Bioamrywiaeth (mathau daearol a dŵr croyw): Diffiniadau a'r berthynas efo dosbarthiadau cynefinoedd eraill. Adroddiad Rhif 307 JNCC.

[2] Jones, P.S. et al, 2003. Cynefinoedd Blaenoriaeth Cymru: canllaw technegol. CCW

[3] Cynllun Gweithredu Cynefinoedd Ymylon Caeau Grawn DG. Bioamrywiaeth: Adroddiad Grŵp Llywio Bioamrywiaeth y DG. Cyfrol 2: Cynlluniau Gweithredu. 1995.

[4] Jones,P.S.et al, 2003.Priority habitats of Wales: a technical guide